# CANLLAWIAU STRATEGOL FFORWM ADOLYGU PRISIAU DŴR 24 - DŴR CYMRU WELSH WATER

## CYD-DESTUN

Hysbysiad yw hwn o dan Fforwm Adolygu Prisiau Dŵr 24 (Fforwm PR24) – Cylch gorchwyl Mai 2022. Terms of Reference – PR24 (ccw.org.uk).. Disgwylir i gwmnïau dŵr ystyried Hysbysiadau wrth ddatblygu eu Strategaethau Cyflawni Hirdymor a'u Cynlluniau Busnes. Bydd y cwmnïau'n gyfrifol am ddatblygu eu Strategaethau Cyflawni Hirdymor a'u Cynlluniau Busnes pum mlynedd a manteisio ar y syniadau a dderbyniwyd gan gwsmeriaid a Fforwm PR24 Cymru, a throi'r blaenoriaethau lefel uchel hyn mewn ffordd effeithiol yn gynlluniau y gellir eu gweithredu a'u mesur.

Os yw'r cynlluniau hynny'n wahanol iawn i safbwyntiau a fynegir mewn Hysbysiadau, mae'r cwmni dŵr perthnasol yn ymrwymo i ddarparu esboniad ysgrifenedig i'r Fforwm yn egluro'r rheswm am y gwahaniaeth. Disgwylir i Ofwat ystyried Hysbysiadau hefyd fel rhan o'r broses adolygu prisiau. Mae Ofwat yn ymrwymo i egluro sut y mae wedi ystyried hysbysiadau'r Fforwm wrth gyhoeddi ei benderfyniad.

Nod y Fforwm Adolygu Prisiau (Fforwm PR24) yw darparu dull cydweithredol rhwng y llywodraeth, rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid ehangach yng Nghymru i ddarparu canllawiau strategol a fydd yn llywio datblygiad Strategaethau Cyflawni Hirdymor a Chynlluniau Busnes cwmnïau dŵr a rhoi safbwyntiau ar y blaenoriaethau ar gyfer y sector yng Nghymru.

Mae Fforwm PR24 wedi canolbwyntio ar y blaenoriaethau a'r themâu sydd yn Natganiad Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth Cymru i Ofwat. Mae aelodau'r Fforwm wedi rhoi her, barn ac adborth i'r cwmnïau dŵr wrth iddynt ddatblygu cynlluniau busnes a Strategaethau Cyflawni Hirdymor.

Mae angen rhaglen fuddsoddi helaeth gan y cwmnïau dŵr dros y 25 mlynedd nesaf a thu hwnt. Mae Fforwm PR24 yn cydnabod bod gofyn cyfaddawdu rhwng buddsoddiad a fforddiadwyedd. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, rhaid i fuddsoddiadau a gweithgareddau gael eu cyflwyno'n raddol dros y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, a'u hadolygu'n gyson i sicrhau bod cynlluniau busnes yn cyflawni mewn ffordd sy'n sicrhau cyflymder a graddfa'r buddsoddiad ond gan fod yn fforddiadwy, yn gyflawnadwy a bod modd eu hariannu ar yr un pryd.

## STRWYTHUR Y CANLLAWIAU A'R DISGWYLIADAU

Fel y nodir yng nghylch gorchwyl Fforwm PR24, bydd gan randdeiliaid Cymru gyfle i helpu i lunio Strategaethau Cyflawni Hirdymor y cwmnïau ac - o ganlyniad - eu cynlluniau busnes pum mlynedd. Dyna pam, yn 'Creu yfory, gyda'n gilydd', awgrymodd Ofwat y gallai fod cyfle i weithredu dull cydweithredol. Byddai hyn yn caniatáu ymgysylltu cynnar ar y canlyniadau lefel uchel, cael gafael ar flaenoriaethau rhanddeiliaid a chwsmeriaid y cwmnïau, a'u bwydo i brosesau datblygu eu cynllun busnes. Byddai'n darparu fforwm hefyd lle gellid trafod a chynnwys safbwyntiau cwsmeriaid, a gafwyd trwy ymchwil ac ymgysylltu â chwsmeriaid ar lefel cwmni, a'u hymgorffori yn y canlyniadau lefel uchel hyn.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno allbwn gwaith Fforwm PR24 Cymru ac mae wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

1. Syniadau gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â buddsoddi mewn cwmnïau dŵr ar gyfer PR24 a thu hwnt
2. Gweledigaeth ar y cyd
3. Blaenoriaethau strategol
4. Blaenoriaethau lefel uchel Fforwm PR24 gan gynnwys meysydd lle mae gwrthdaro neu fylchau y dylid mynd i'r afael â nhw
5. Syniadau strategol o Fforwm PR24
6. Syniadau penodol cwmnïau o Fforwm PR24

## SYNIADAU GAN WEINIDOGION CYMRU MEWN PERTHYNAS Â BUDDSODDI MEWN CWMNÏAU DŴR YNG NGHYMRU YN 2025-2030 A THU HWNT

O ystyried y ffocws cynyddol ar ansawdd dŵr a pherfformiad cwmnïau dŵr, Gweinidogion Cymru:

Cydnabod y cyfraniad y mae cwmnïau dŵr yn ei wneud i economi Cymru, yn genedlaethol ac yn lleol, gan nodi, ar wahân i'r buddsoddiad mawr, fod y cwmnïau dŵr yn gyflogwyr mawr.

Cydnabod maint yr her sy'n wynebu'r sector dŵr, yr holl broblemau amrywiol y mae'r diwydiant dŵr yn eu hwynebu a'r angen am fwy o fuddsoddiad y byddai angen ei gynnal dros yr hirdymor. Mae Gweinidogion yn cydnabod maint tebygol y buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol ac maent am weld buddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu yn seiliedig ar sicrhau'r gwelliant mwyaf posibl i'r amgylchedd o ran lleihau niwed gan ystyried disgwyliadau cwsmeriaid a rhanddeiliaid ynghylch niwed ac effaith, gan sicrhau'r gwerth gorau i gwsmeriaid.

Maent yn cydnabod, gyda rhywfaint o siom, y cynnydd disgwyliedig ym miliau cwsmeriaid yn deillio o fuddsoddi mwy, gyda rhywfaint o bryder ynghylch yr effaith y gallai hyn ei chael ar aelwydydd sydd eisoes yn wynebu argyfwng costau byw. Mae Gweinidogion yn pwysleisio'r angen i gynnal a, lle bo modd, gwella cynlluniau tariff cymdeithasol effeithiol i gynorthwyo'r cwsmeriaid hynny sy'n cael trafferth talu eu biliau. Dylid cydlynu'r trefniadau hyn â darparwyr cyfleustodau eraill ac awdurdodau perthnasol lle bynnag y bo modd i sicrhau'r budd gorau posibl a helpu i dargedu cymorth yn gyflym at y rhai sydd ei angen fwyaf.

Sylwch y dylai cyflenwi cwmnïau dŵr ar lawr gwlad ystyried nodau hirdymor, anghenion cymunedol ac economaidd, gan gynnwys yr angen i ddatgarboneiddio a bodloni gofynion statudol.

Sylwer, o ran model presennol y sector dŵr, a'r fframwaith rheoleiddio cysylltiedig, bod angen taro'r cydbwysedd yn well i ddiwallu anghenion cwsmeriaid a'r amgylchedd ar y cyd nawr ac yn y dyfodol.

Maent eisiau sicrhau bod pob ceiniog o fuddsoddiad yn cyflawni er budd cwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd ond gan osgoi creu neu waethygu anghydraddoldeb; ac yn awyddus i wneud y gorau o fuddsoddiad/cyllid ac annog sefydliadau i gydweithio'n well.

**GWELEDIGAETH AR Y CYD**

Datblygodd y cwmnïau dŵr y weledigaeth ar y cyd ganlynol ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru a drafodwyd ac a gymeradwywyd gan Aelodau'r Fforwm:

Byddwn yn sefydlu'r sector dŵr yng Nghymru fel model o **gydweithio effeithiol** ar gyfer cyflawni **perfformiad rhagorol** yn erbyn cefndir yr argyfyngau hinsawdd a natur.

Byddwn yn gweithio gyda chymunedau, rhanddeiliaid a rheoleiddwyr i **gyd-greu a darparu atebion yn y ffordd fwyaf effeithlon dros yr hirdymor** ar ôl ystyried anghenion ein cwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas yn llawn. Byddwn yn ceisio adlewyrchu amrywiaeth y bobl rydym yn eu gwasanaethu yn ein gweithlu.

**Byddwn yn ymgysylltu â chwsmeriaid ac yn rhoi gwybodaeth iddynt**, gan eu helpu i chwarae eu rhan wrth fynd i'r afael â heriau'r dyfodol. Byddwn yn ymateb bob amser i'w hanghenion a'u disgwyliadau sy'n newid, gan roi sylw arbennig i gwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus.

Byddwn yn darparu **ansawdd dŵr yfed rhagorol,** gan weithio mewn dalgylchoedd i amddiffyn ansawdd dŵr crai. Byddwn yn **uwchraddio ein rhwydwaith** i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn gallu gwrthsefyll bygythiadau'r presennol a'r dyfodol.

Byddwn yn cefnogi **amgylchedd ffyniannus** yn ein hafonydd a'n moroedd trwy reoli a thrin dŵr gwastraff yn effeithiol, gan uwchraddio'r gallu i drin dŵr a chapasiti'r rhwydwaith lle bo angen ac ymdopi â phatrymau glaw sy'n newid. Byddwn yn cyflawni allyriadau carbon sero net ac yn ceisio mynd ymhellach.

Byddwn yn harneisio **arloesedd** ac yn addasu i'r byd wrth iddo newid, gan gadw biliau mor fforddiadwy â phosibl. Byddwn yn darparu gwasanaeth dŵr gyda'r gorau yn y byd, sy'n wydn a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**BLAENORIAETHAU STRATEGOL LLYWODRAETH CYMRU**

Mae'r Datganiad Blaenoriaethau Strategol i Ofwat, y Rhaglen Lywodraethu a'r themâu ar gyfer y weledigaeth hirdymor ar gyfer dŵr yng Nghymru yn Strategaeth Dŵr Cymru yn egluro'r Blaenoriaethau Strategol lefel uchel sydd wedi llywio'r trafodaethau.

<u>Dŵr ar gyfer natur, pobl a busnes</u> – Rydym am sicrhau bod pobl Cymru a chenedlaethau'r dyfodol yn parhau i gael budd o'n hadnoddau naturiol. Mae'n rhaid i

ni esblygu a herio'n hunain yn gyson i ddod o hyd i ffyrdd newydd i Gymru dyfu'n gynaliadwy, gan gynyddu gwytnwch a rheoli ein hadnoddau naturiol yn effeithlon.

Gwella'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn rheoli ein gwasanaethau dŵr – Mae pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd yn egwyddor datblygu cynaliadwy allweddol ac yn enwedig mewn perthynas â rheoli ein hamgylchedd dŵr.

Darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid – Mae sicrhau mynediad at wasanaethau dŵr a charthffosiaeth teg a fforddiadwy, i bobl a busnesau, yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Yn benodol, rydym yn poeni am lefel y taliadau dŵr ac effaith y cynnydd ar y cwsmeriaid hynny sydd leiaf abl i dalu.

Diogelu a gwella ansawdd dŵr yfed – mae cyflenwi dŵr yfed i'n cartrefi, ein busnesau a'n diwydiant yn wasanaeth hanfodol, gan gefnogi gweithgarwch economaidd a diogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Byddwn yn gweithredu i gynnal safon uchel bresennol ein hansawdd dŵr yfed cyhoeddus. Rhaid i gwmnïau dŵr gynnal ac adeiladu ar arferion da a lle bo angen, gwneud gwelliannau i sicrhau bod gennym ansawdd dŵr yfed glân, iachus, diogel a dibynadwy.

Systemau draenio a charthffosiaeth ar gyfer yr 21ain ganrif – Mae systemau draenio a charthffosiaeth yng Nghymru yn asedau hollbwysig ond yn rhai sy'n cael eu hanwybyddu'n aml. Rydym am i seilwaith carthffosiaeth a draenio ar gyfer dŵr gwastraff a dŵr wyneb gael eu rheoli a'u cynnal a chadw'n dda mewn ffordd integredig, gyda digon o gapasiti i reoli'r galw a roddir arno a heb achosi llygredd neu lifogydd o garthffosydd i gartrefi pobl. Mae dirywiad ym mherfformiad asedau carthffosiaeth yn peri risg sylweddol i ansawdd dŵr ac rydym am weld dull strwythuredig o gynllunio a chynnal a chadw'r rhwydwaith carthffosiaeth a draenio.

Cefnogi darpariaeth – Mae rôl y rheoleiddwyr o ran annog a chymell cwmnïau dŵr i gyflawni ar gyfer eu cwsmeriaid a rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ganolog i'n gweledigaeth ar gyfer dŵr yng Nghymru. Rydym yn disgwyl i'n rheoleiddwyr weithio'n rhagweithiol ac yn adeiladol gyda'i gilydd a chyda phartneriaid allweddol eraill i sicrhau y gwneir penderfyniadau effeithiol, y defnyddir dulliau rheoleiddio cydgysylltiedig, er mwyn lleihau beichiau rheoleiddio lle bo hynny'n briodol ac i ddwyn cwmnïau i gyfrif, gan ddefnyddio'r holl ddulliau gorfodi yn ôl yr angen.

## BLAENORIAETHAU LEFEL UCHEL FFORWM PR24

Yr her fwyaf o ran cynllunio busnes yw'r cyfaddawd rhwng cadw biliau'n fforddiadwy a chynllun y gellir ei gyflawni a'i ariannu wrth ddarparu buddsoddiad mawr ei angen hefyd i fodloni safonau amgylcheddol cyfredol, anghenion amgylcheddol yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, ac adeiladu seilwaith dŵr a dŵr gwastraff gwydn a fydd yn cynnal cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru yn effeithiol. Rhaid i'r buddsoddiad gan PR24 wella ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymunedau ar gyfer y bobl a'n planed, nawr ac ar gyfer y dyfodol. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw adeiladu Cymru decach, wyrddach a chryfach a chynyddol lwyddiannus lle nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl na neb yn cael ei ddal yn ôl.

Mae'r canlynol yn nodi'r blaenoriaethau a gafodd eu nodi a'u llywio gan drafodaeth yn Fforwm PR24 sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Cânt eu llywio hefyd gan ddogfennau PR24 amrywiol gan y sefydliadau a gynrychiolir.

**Argyfyngau Hinsawdd a Natur**

Mae newid yn yr hinsawdd yn fater byd-eang brys sy'n gofyn am weithredu gan bawb. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi dweud bod yn rhaid i'r degawd hwn fod yn ddegawd o weithredu yng Nghymru. Mae'r cylch PR24 yn llinell amser hollbwysig i gyflawni hyn gan ei bod yn darparu buddsoddiad cwmnïau dŵr o 2025-2030. Hwn hefyd yw'r adolygiad prisiau cyntaf ers i'r Senedd gynnwys y targed sero net erbyn 2050 mewn deddfwriaeth. Nododd Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru gamau gweithredu i ddiogelu a rheoli o leiaf 30% o’n tir, ein dŵr croyw a’n môr ar gyfer natur yn effeithiol erbyn 2030. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i gymryd camau uchelgeisiol ac integredig i roi natur ar y llwybr i adferiad a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. O ystyried bod newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth yn ddwy ochr i'r un geiniog; ni allwn fynd i'r afael ag un heb fynd i'r afael â'r llall hefyd.

Mae safbwyntiau aelodau Fforwm PR24 yn ei gwneud yn glir, wrth gynllunio ar gyfer sut i gyrraedd ein targedau sero net, y dylai cwmnïau dŵr ystyried dau gyd-destun newidiol: amodau amgylcheddol a chyllid / fforddiadwyedd. Yn gyntaf, mae newid hinsawdd yn effeithio ar gyfansoddiad a digonolrwydd dŵr dalgylch a ffynhonnell. Er enghraifft, mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn tynnu sylw at ddiraddio cyfansoddiad cemegol a biolegol dŵr dalgylch a ffynhonnell, a all effeithio ar allu gweithfeydd trin yng Nghymru i gyflenwi dŵr iachus. Yn ail, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi gweithio gyda chwmnïau i greu rhestr sy'n seiliedig ar dystiolaeth o rwymedigaethau statudol a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae CNC yn pryderu efallai na fydd cwmnïau dŵr yn gallu ariannu'n llawn y rhwymedigaethau statudol sy'n ofynnol ar gyfer cydymffurfiaeth gyfreithiol fel y nodwyd yn Rhaglen Genedlaethol yr Amgylchedd wrth gynnal biliau fforddiadwy i gwsmeriaid a'r gallu i gyflawni'r rhaglen. Mae hyn yn golygu bod perygl o niwed amgylcheddol yn sgil gweithrediadau cwmnïau dŵr ac yn codi cwestiynau ynghylch sut i gydbwyso fforddiadwyedd ac angen brys. Mae angen gwneud dewisiadau anodd ynghylch blaenoriaethu gwaith hanfodol o dan y rhaglen Genedlaethol er mwyn cynnal y gwaith o ddarparu ar gyfer natur a'r hinsawdd. Rydym yn disgwyl i gynlluniau busnes flaenoriaethu yn unol â chanllawiau penodol cwmnïau.

Mae rôl atebion sy'n seiliedig ar natur ac atebion seiliedig ar ddalgylch wedi dod i'r amlwg fel llwybr hanfodol i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, wrth barhau i gyflawni ar gyfer cwsmeriaid. Mae angen newid sylweddol er mwyn gallu symud i atebion mwy cynaliadwy wrth sicrhau bod y lefel ofynnol o ddiogelu'r amgylchedd yn cael ei sicrhau. Mae Ofwat yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn rhoi cynlluniau ar waith i hwyluso'r newid sylweddol hwn ar gyfer atebion sy'n seiliedig ar natur yn benodol (gweler *Atodiad 9: Lwfansau* Gwariant methodoleg derfynol Ofwat).

**Yr Amgylchedd**

Mae'n rhaid i'n sector dŵr a'r gwasanaethau ecosystem y maent yn dibynnu arnynt ddarparu ar gyfer pobl a natur. Mae problemau llygredd, gorlifoedd stormydd, ffosffadau, cynnydd mewn tymheredd, a gostyngiadau mewn llif yn rhoi pwysau

sylweddol ar yr amgylchedd dŵr. Mae cyflwr ansawdd dŵr yn destun craffu sylweddol gan y cyfryngau.

Mae angen cynnydd cyflym i sicrhau systemau draenio gwydn sy'n diogelu'r amgylchedd ac yn cynnal pobl ac economi Cymru. Rhaid defnyddio tystiolaeth Cynlluniau Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff y cwmnïau i asesu a mynd i'r afael â'r materion hyn yn strategol ar y cyd â gwaith a wnaed eisoes (a chynlluniau statudol eraill) i asesu asedau sy'n gorlifo llawer. Mae angen i gwmnïau weithredu nawr, cyn ac yn ystod PR24 i egluro a darparu llwybr clir â blaenoriaeth i rwydwaith draenio a charthffosiaeth cynaliadwy a gwydn.

**<u>Gwytnwch</u>**

Mae'r bygythiadau sy'n wynebu'r sector dŵr yn gymhleth ac yn esblygu'n gyson. Yn y cylch PR24, bydd angen i wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff fod yn barod i fynd i'r afael â set gymhleth o risgiau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg. Amlygodd aelodau'r Fforwm PR24 y risg o newidiadau tywydd mwy eithafol yn ymwneud ag amlder a dwyster llifogydd, cyfnodau hir o dywydd sych a digwyddiadau rhewi/dadmer, yn ogystal â seiberddiogelwch, diogelwch cronfeydd dŵr, ynni a gwytnwch cemegol fel risgiau allweddol i PR24.

Er mwyn adeiladu gwytnwch yn y modd mwyaf effeithiol, mae dull cydweithredol ac ystwyth yn hanfodol. Mae Ofwat yn awgrymu hefyd y dylai cynlluniau pum mlynedd cwmnïau dŵr gynnwys penderfyniadau wedi'u trefnu ar rai problemau lle mae sicrwydd yn debygol o gynyddu rhwng nawr a PR29. Mae gwytnwch wrth wraidd Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a Chynlluniau Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff, felly mae cyfle i ddefnyddio'r dulliau hyn i gyflawni'n effeithlon.

Amlygodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr gyd-destun presennol yr argyfwng costau byw ac ystyriaethau fforddiadwyedd i gwsmeriaid. Tynnodd y cynrychiolydd defnyddwyr sylw at bwysigrwydd cymorth cynhwysfawr ac addasu'r ddarpariaeth o gymorth i'r her tymor byr a hirdymor i sicrhau bod modd gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn yr hirdymor. Cafodd hyn ei ategu gan y cwmnïau. Bydd angen adeiladu gwytnwch gan gadw'r ffactorau hyn mewn golwg, er mwyn sicrhau'r dull mwyaf cost-effeithiol a chosteffeithlon.

Mae cwsmeriaid yn disgwyl gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy nawr ac yn y dyfodol. Mae angen rheoli'r disgwyliadau i sicrhau nad yw'r adnoddau y mae'r gwasanaethau hyn yn dibynnu arnynt yn cael eu defnyddio'n anghynaliadwy.

**<u>Iechyd asedau</u>**

Mae rheoli a chynnal asedau'r cwmnïau'n effeithiol yn elfen dyngedfennol o sicrhau gwytnwch yn y sector dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru ac i atal mwy o risg i'r amgylchedd oherwydd methiant asedau. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried twf y boblogaeth a'r seilwaith sy'n heneiddio ynghyd â thywydd mwy eithafol. Mae methodoleg olaf Ofwat yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli asedau mewn ffordd sy'n edrych i'r dyfodol, gyda mwy o ffocws ar stiwardiaeth asedau ar gyfer yr hirdymor. Mae hyn yn cynnwys blaengynllunio ar gyfer darfodiad asedau a gwaith uwchraddio angenrheidiol ar asedau o dan Gyfarwyddyd Diogelwch a Mesurau Brys 2022.

Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn tynnu sylw at yr angen am fuddsoddiad mewn cynllunio o'r ffynhonnell i'r tap o ganlyniad i asedau a seilwaith sy'n heneiddio nad ydynt yn gallu ymdopi mwyach na darparu'n effeithiol ar gyfer newidiadau yn ein hamgylchedd, ein demograffeg a disgwyliadau cwsmeriaid. Yn ogystal, mae lleihau afliwiad dŵr yn debygol o fod yn gost fuddsoddi amlwg yn iechyd yr asedau, sef y rheswm mwyaf cyffredin o hyd mae cwsmeriaid yn cysylltu â chwmnïau gyda phryderon ynghylch ansawdd dŵr.

Efallai mai dim ond yn y tymor hwy y daw effaith iechyd asedau ar yr amgylchedd a gwasanaethau i gwsmeriaid i'r amlwg. Dylai cwmnïau roi sicrwydd ynghylch sut maent yn asesu ac yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'u hasedau, o asedau rhwydwaith i rai naturiol (fel y dalgylchoedd sy'n cynnal cyflenwad dŵr crai). Dylai cwmnïau ddangos dealltwriaeth glir o iechyd eu hasedau presennol gan gynnwys rhyngddibyniaethau, tueddiadau yn yr hirdymor, a sut mae hyn yn effeithio ar lefelau gwytnwch cyffredinol. Dylid costio hyn gydag awgrym o'r pwysau buddsoddi yn y dyfodol. Dylai cwmnïau roi eu hasesiad i aelodau'r fforwm PR24 o ble mae amnewid yn hytrach na chynnal a chadw yn cynnig y gwerth gorau i gwsmeriaid yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor**.**

**Cwsmeriaid a chymunedau**

Blaenoriaeth allweddol a godwyd gan aelodau Fforwm PR24 yw sicrhau cydbwysedd rhwng gofynion buddsoddi hirdymor a fforddiadwyedd i gwsmeriaid. Mae'r argyfwng costau byw yn arwain at gynnydd yn nifer y cwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau dŵr a nifer y cwsmeriaid sy'n gymwys i gael cymorth ariannol. Ar yr un pryd, mae nifer cynyddol o gwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd ond nad ydynt yn gymwys i gael cymorth ariannol trwy ostyngiad ar eu bil ar hyn o bryd. Er mwyn cefnogi fforddiadwyedd i gwsmeriaid, mae CCW yn cynnig opsiwn i sefydlu un cynllun fforddiadwyedd dŵr ar draws Cymru a Lloegr. Byddai hyn yn sicrhau dull cyson lle rhennir costau rhwng cwsmeriaid sy'n cyfrannu ledled Cymru a Lloegr.

Mae maint y buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer PR24 yn un nas gwelwyd ers preifateiddio, gyda chwmnïau dŵr yn asesu, o ystyried natur a maint y gofynion, fod y buddsoddiad gofynnol sydd ei angen lawer gwaith yn uwch nag mewn adolygiadau prisiau blaenorol. Felly, mae'n hanfodol bod cwmnïau dŵr yn blaenoriaethu a buddsoddi fesul cam er mwyn sicrhau y gellir cadw biliau ar lefel fforddiadwy, tra'n eu galluogi hefyd i ariannu a chynnal eu gweithrediadau a chyflawni eu rhwymedigaethau amgylcheddol. Gan gydnabod y buddsoddiad sydd ei angen, mae'n hanfodol hefyd fod cwmnïau'n gallu cynnal cymorth tariff cymdeithasol i amddiffyn cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn ariannol rhag cynnydd ym mhris biliau.

Pwysleisiodd Fforwm PR24 yr angen am gydweithio ac ymgysylltu â chwsmeriaid trwy gydol y broses PR24 hefyd i hyrwyddo tryloywder ac adeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd. Er enghraifft, blaenoriaeth y grwpiau her cwsmeriaid annibynnol yw sicrhau bod dull cydweithredol yn cael ei fabwysiadu sy'n ennyn diddordeb cwsmeriaid ac yn ymgorffori eu hadborth yng nghynlluniau busnes cwmnïau dŵr. Mae'r angen am ddull cydweithredol a thryloyw yn cael ei adlewyrchu ym methodoleg derfynol Ofwat ar gyfer PR24 hefyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr gynnal dau gyfarfod 'eich dŵr, eich llais', sy'n rhoi cyfle i gwsmeriaid, ac i randdeiliaid cymunedol ac ehangach herio cwmnïau ynghylch eu cynlluniau'n uniongyrchol mewn fforwm agored.

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ganolog i'r tirlun polisi yng Nghymru. Yn ôl y Ddeddf mae'n ofynnol i gyrff yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau a gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd i amddiffyn yr amgylchedd a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r broses PR24 adlewyrchu'r nodau a'r ffyrdd o weithio sydd yn y Ddeddf, a bod cwmnïau dŵr yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Mae CNC yn tynnu sylw at y rheidrwydd i weithredu nawr yn wyneb yr argyfyngau hinsawdd a natur. Er y cydnabyddir na fydd cwsmeriaid yn croesawu cynnydd mewn biliau i fynd i'r afael â'r heriau hyn, mae'n hanfodol bod cwmnïau dŵr yn mynd i'r afael â'r heriau presennol yn effeithiol er mwyn osgoi beichiau ariannol ac amgylcheddol sylweddol ar genedlaethau'r dyfodol. Mae angen buddsoddiad sylweddol nawr i gyrraedd targedau sero net, gwella diogelwch cronfeydd dŵr ac argaeau, mynd i'r afael â gorlifoedd stormydd a gwella gweithfeydd trin dŵr gwastraff a mabwysiadu'r hyn sydd wedi'i ddysgu o sychder, stormydd a digwyddiadau rhewi/dadmer diweddar.

Pwysleisiodd grŵp her annibynnol cwsmeriaid Dŵr Cymru yr angen am naratif penodol i Gymru hefyd i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu hadlewyrchu a'u hymgorffori'n gywir drwy gydol proses PR24.

## **CANLLAWIAU LEFEL STRATEGOL FFORWM PR24**

Mae Fforwm PR24 yn rhoi'r canllawiau strategol canlynol:

### **Hinsawdd, natur a'r amgylchedd**

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol i sicrhau cydymffurfiaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gydag arweiniad canllawiau penodol i gwmnïau. Dylai cwmnïau, pan gânt eu cefnogi gan gwsmeriaid/rhanddeiliaid a lle mae'n cynrychioli gwerth da am arian, ragori ar y gofynion deddfwriaethol hyn a sicrhau buddion amgylcheddol a chymdeithasol ehangach wrth gyflawni eu swyddogaethau.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau archwilio a gwneud y mwyaf o gyfleoedd cydweithredu a chyd-ariannu gyda sectorau eraill, er enghraifft partneriaethau agosach ag awdurdodau lleol ar raglen rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol (FCERM), er mwyn alinio buddsoddiad ac uchelgais cyfunol yn well ar reoli dŵr wyneb, capasiti'r rhwydwaith, mynd i'r afael â gorlifoedd storm a gwella iechyd asedau.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau gyflymu cyfleoedd arloesi i gyflawni mwy, yn gyflymach ac mewn modd cost-effeithlon.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau chwilio am gyfleoedd i sicrhau effeithlonrwydd a synergeddau mewn atebion er mwyn cyflawni ar draws sawl maes gan gynnwys

gwell canlyniadau i ddefnyddwyr, lleihau risg ansawdd dŵr yfed a manteision i'r amgylchedd.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau gyflawni ar raddfa a chyflymder i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn ystod PR24, gan flaenoriaethu gweithredu ar sail sicrhau'r gwelliant mwyaf posibl i'r amgylchedd o ran lleihau niwed.

- Rydym yn disgwyl y bydd gan gwmnïau fap trywydd clir ar gyfer cyflawni cynigion buddsoddi sy'n mynd y tu hwnt i PR24.

- Rydym yn disgwyl i gynlluniau busnes fod yn seiliedig ar dystiolaeth, ond ni ddylai ceisio cael gafael ar dystiolaeth berffaith atal gweithredu nawr. (Mae methodoleg derfynol Ofwat ar gyfer PR24 yn nodi disgwyliadau ar dystiolaeth ar gyfer cynlluniau busnes PR24.)

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau ymchwilio i effaith eu hasedau a lle mae angen rhagor o dystiolaeth, i weithredu, mewn pryd i lywio'r gwaith o gynllunio ar gyfer PR29.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau fanteisio ar ddulliau amgen, arloesedd a phartneriaethau cydweithredol i fynd ati i nodi cyfleoedd i gyflymu buddsoddiad cyn ac yn ystod Cynllun Rheoli Asedau 8.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau fynd i'r afael â phroblemau yn y ffynhonnell; blaenoriaethu eu hymdrech ar yr effaith amgylcheddol fwyaf a blaenoriaethu atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gydnabod ar yr un pryd y gallai rhai canlyniadau gymryd mwy o amser i'w cyflawni nag atebion traddodiadol.

**Gwytnwch**

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau ddangos sut mae eu cynlluniau busnes yn ystyried yr hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau tywydd, bygythiadau seiber, a heriau'r gadwyn gyflenwi, yn enwedig sut maent wedi addasu eu dull o liniaru yn erbyn digwyddiadau yn y dyfodol.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau baratoi cynlluniau busnes sy'n dangos bod gwytnwch gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yn awr ac yn y dyfodol yn cael ei ddeall a'i reoli drwy ddull cadarn, addasol a seiliedig ar dystiolaeth.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau wella gwytnwch eu hasedau a'u gweithrediadau i wrthsefyll risg llifogydd ac arfordirol, a bodloni gofynion eu rôl fel Awdurdod Rheoli Risg o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau fodloni rhwymedigaethau o dan y rheoliadau a'r rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys Mesurau Diogelwch ac Argyfwng, Seilwaith Cenedlaethol Critigol a seiberddiogelwch.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau fuddsoddi yn eu seilwaith cyflenwi dŵr mewn cronfeydd dŵr penodol mewn ymateb i Adolygiad Balmforth.

**Iechyd Asedau**

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau wella iechyd eu hasedau i fynd i'r afael â'r risgiau i ansawdd dŵr yfed a chydymffurfiaeth.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau wella iechyd eu hasedau i sicrhau nad yw asedau'n peri risg i'r amgylchedd.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau wella iechyd eu hasedau i gefnogi twf wedi'i gynllunio a thwf yn y dyfodol.

**Cwsmeriaid a chymunedau**

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau ddangos sut mae eu cynlluniau wedi newid mewn ymateb i adborth gan gwsmeriaid, rhanddeiliaid a Fforwm PR24 a pha elfennau o bryderon fydd yn parhau heb eu datrys.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau weithio gyda CCW a'r sector i gefnogi a dangos camau cydgysylltiedig ar fesurau cymorth fforddiadwyedd cynhwysfawr ac effeithiol, sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o anghenion ac amgylchiadau cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol.

**CANLLAWIAU PENODOL I'R CWMNI - Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)**

**Biliau a fforddiadwyedd**

- Rydym yn disgwyl i DCWW barhau i gynnig trefniadau talu hyblyg a mecanweithiau eraill i helpu cwsmeriaid i dalu eu bil dŵr ac osgoi mynd i ddyled.
- Rydym yn disgwyl i DCWW ddangos sut mae opsiynau cymorth ariannol amrywiol wedi cael eu hystyried a sut maent wedi gweithio gyda'r sector a CCW.
- Rydym yn disgwyl i DCWW barhau i fod yn hyblyg ac yn agored i addasu i ddulliau a heriau newydd.
- Rydym yn disgwyl i DCWW gefnogi hyrwyddo cymorth effeithiol yn barhaus i gwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, dylai cwmnïau ystyried argymhellion adolygiad annibynnol CCW o fforddiadwyedd dŵr, cynigion cymorth dŵr ychwanegol sy'n dod i'r amlwg ac arferion da parhaus a amlygwyd gan CCW.

- Rydym yn disgwyl i DCWW gynnal lefel y cymorth fforddiadwyedd a ddarperir drwy dariffau cymdeithasol a'i gynyddu lle bo modd.

**Yr hinsawdd, natur a'r amgylchedd**

- Rydym yn disgwyl i DCWW flaenoriaethu ymyriadau amgylcheddol sy'n darparu'r budd amgylcheddol mwyaf, yn unol â'r dull y cytunwyd arno yn y Tasglu Ansawdd Dŵr Afonydd Gwell ac Uwchgynadleddau Llygredd Afonydd y Prif Weinidog.
- Rydym yn disgwyl i DCWW leihau ei ollyngiadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) sensitif i'r lefelau a ystyrir yn gyson ag ansawdd dŵr iach yr afon, law yn llaw â chyfranwyr eraill ar sail 'cyfran deg' y cytunwyd arni.
- Rydym yn disgwyl i'r cwmni gyflawni 90% o'r gostyngiad ffosfforws sy'n ofynnol ar sail 'cyfran deg' erbyn 2030, a 100% erbyn 2032.
- Rydym yn disgwyl i'r cwmni fynd ati i fabwysiadu atebion sy'n seiliedig ar natur a gweithio mewn partneriaeth. Dylai'r cwmni chwilio am atebion arloesol hefyd a chanfod a gweithredu ffyrdd eraill (lle bo hynny'n briodol) o reoli maethynnau.
- Rydym yn disgwyl i DCWW gyflawni gwelliannau lle nodir eu bod yn cyfrannu at resymau dros beidio â chyflawni statws ecolegol da – yn dilyn y dull blaenoriaethu i fynd i'r afael â niwed amgylcheddol.
- Rydym yn disgwyl i DCWW leihau'r defnydd o orlifoedd stormydd y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt ar sail sicrhau'r gwelliant mwyaf posibl i'r amgylchedd o ran lleihau niwed. Mae hyn yn berthnasol hefyd i orlifoedd stormydd heb ganiatâd ar hyn o bryd.
- Rydym yn disgwyl i DCWW gydweithio â CNC i weithredu dull o roi caniatâd i bob gorlif storm erbyn 2030 gydag asesiadau ecolegol wedi'u cwblhau a chynllun ar gyfer lleihau niwed ecolegol yn unol â'r dull buddsoddi ehangach.
- Rydym yn disgwyl i berfformiad DCWW ar orlifoedd stormydd gael ei fonitro a'i gymell yn seiliedig ar leihau niwed ecolegol ac nid ar nifer y gollyngiadau ar gyfartaledd. Croesewir gostyngiadau yn nifer y gollyngiadau, ond nid nhw eu hunain yw'r flaenoriaeth ar gyfer gweithredu, a ddylai ganolbwyntio ar nodi a mynd i'r afael â gorlifoedd stormydd sy'n achosi'r effaith fwyaf ar yr amgylchedd.
- Rydym yn cydnabod y buddsoddiad sylweddol yr amcangyfrifir ei fod yn ofynnol i fynd i'r afael â'r broblem o orlifoedd stormydd yn achosi niwed ecolegol ac yn cydnabod yr angen i weithredu fesul cam er mwyn rheoli'r effaith ar filiau cwsmeriaid, ariannu a'r gallu i gyflawni.
- Rydym yn disgwyl i holl asedau DCWW gael eu dosbarthu yn ôl meini prawf a nodir yng nghanllawiau dosbarthu gorlifoedd stormydd CNC erbyn 2030.
- Rydym yn disgwyl i DCWW fuddsoddi i gynyddu cyfran y gorlifoedd stormydd sy'n achosi dim niwed (neu niwed 'isel iawn') i'r amgylchedd i 100% erbyn

2040 fan bellaf, gan gynnwys pob gorlif stormydd heb ganiatâd ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl i'r cwmni gyflawni 60% erbyn 2030, ac 80% erbyn 2035.

- Rydym yn disgwyl i DCWW weithio gydag awdurdodau lleol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o'r rhaglen rheoli perygl llifogydd lle gall prosiectau gefnogi'r rhaglen gorlifoedd stormydd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Rydym yn disgwyl i'r cwmni fod yn esiampl o ran rheoli dŵr wyneb yng Nghymru.
- Rydym yn disgwyl i DCWW wella gwaith monitro, yn unol ag ymrwymiadau gan y Tasglu Ansawdd Afonydd Gwell, gan gefnogi datblygiad Cynlluniau Rheoli Asedau yn y dyfodol a'r nod hirdymor o rwydweithiau clyfar sy'n gwneud y defnydd gorau o dechnoleg a rheoli amser real.
- Rydym yn disgwyl i DCWW geisio cyflawni targed mwy ymestynnol ar gyfer digwyddiadau llygredd ac nid ydym am weld y cwmni dŵr mwyaf yng Nghymru ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y diwydiant. Mae gan aelodau'r fforwm bryderon ynghylch dirywiad mewn perfformiad ac uchelgais DCWW i leihau achosion o lygredd dros PR24.
- Rydym yn disgwyl i leihau llygredd gael ei wreiddio'n gadarn yng ngwerthoedd ac arferion gweithredol y cwmni.
- Rydym yn disgwyl i'r cwmni dargedu:
    - Asesiad EPA 4 seren
    - Dim digwyddiadau llygredd categori 1 a 2
    - Gostyngiad yn nifer yr achosion o lygredd categori 3
    - Cydymffurfio 100% â thrwyddedau rhyddhau dŵr gwastraff gan weithfeydd trin dŵr gwastraff a thrwyddedau tynnu dŵr.
- Rydym yn cydnabod ansawdd rhagorol cyffredinol dyfroedd ymdrochi yng Nghymru ac nid ydym am weld unrhyw ddirywiad yn hynny.
- Rydym yn disgwyl i DCWW weithredu a chynnal ei seilwaith i helpu i sicrhau bod y lefel gyffredinol bresennol o ansawdd dŵr ymdrochi yng Nghymru yn cael ei chynnal yn yr hirdymor.
- Rydym yn disgwyl i DCWW ddatblygu tystiolaeth i sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu targedu i fodloni dynodiadau dŵr ymdrochi newydd ac i fynd i'r afael â risgiau i ddirywiad asedau; gweithio mewn partneriaethau i sicrhau ansawdd dŵr da/rhagorol; ystyried a blaenoriaethu atebion seiliedig ar ddalgylch a natur bob amser lle bo hynny'n briodol.

**Gwasanaeth cwsmeriaid a boddhad cwsmeriaid**

- Rydym yn disgwyl i DCWW wella ei berfformiad ar fesurau gwasanaeth allweddol yn y tymor byr lle mae'n perfformio'n wael ar sail gymharol.
- Rydym yn disgwyl i DCWW wneud gwelliannau sylweddol i lefelau perfformiad rhwng nawr a 2050, a'u cyflawni fesul cam ar draws Cynlluniau Rheoli Asedau i leihau'r effaith ar filiau cwsmeriaid er mwyn cyflawni:
    - Toriadau yn y cyflenwad dŵr: 2 funud
    - Llifogydd carthffosydd mewnol: 120 o ddigwyddiadau
    - Llifogydd carthffosydd allanol: 1300 o ddigwyddiadau
- Rydym yn disgwyl i DCWW gynyddu gwytnwch i wrthsefyll tywydd eithafol a allai effeithio ar berfformiad tymor byr yn erbyn y mesurau hyn.

- Rydym yn disgwyl i DCWW geisio bod ymhlith y 3 uchaf yn y diwydiant o safbwynt boddhad cyffredinol cwsmeriaid (C-Mex).
- Rydym yn disgwyl i DCWW geisio bod ymhlith y 3 uchaf yn y diwydiant ar dabl safleoedd gwasanaeth cwsmeriaid datblygwyr (D-Mex).

**Ansawdd dŵr yfed**

- Rydym yn disgwyl i DCWW wella ei berfformiad ar y Mynegai Risg Cydymffurfiaeth i ddod ag ef yn ôl i gyfartaledd cwmnïau dŵr eraill o leiaf erbyn 2025 a chynnal hyn yn yr hirdymor, wrth geisio gwneud gwelliannau pellach. Mae'r Fforwm yn siomedig gyda pherfformiad DCWW ar fesur Mynegai Risg Cydymffurfiaeth yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.
- Rydym yn disgwyl i DCWW wella ei berfformiad ar gysylltiadau ag afliwiad, blas ac aroglau. Dylai dargedu gwelliant i 1.0 o gysylltiadau cwsmeriaid fesul 1,000 erbyn 2030, a gwelliant pellach o 50% i 0.5 erbyn 2050, wedi'i wasgaru'n gyfartal ar draws cyfnodau Cynlluniau Rheoli Asedau.
- Rydym yn disgwyl i DCWW weithio tuag at 'Gymru ddi-blwm'. Dylai DCWW geisio disodli 10,000 o bibellau plwm ychwanegol erbyn 2030, a 100,000 erbyn 2050, gan fuddsoddi'n gyfartal dros gyfnodau'r Cynlluniau Rheoli Asedau i reoli'r gallu i gyflawni a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer arloesi ac effeithlonrwydd i gyflymu'r rhaglen lle bo hynny'n bosibl.
- Rydym yn disgwyl i DCWW ailystyried ei uchelgais wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael ar y strategaethau mwyaf effeithiol ar gyfer sicrhau cymeradwyaeth cwsmeriaid, ac ar sut i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd o ran costau.
- Rydym yn disgwyl i DCWW weithio gyda phartneriaid fel awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol ar raglenni ôl-osod.

**Adnoddau dŵr a'r galw**

- Rydym yn disgwyl i DCWW symud pob parth cyflenwi dŵr i lefel 1 mewn 500 mlynedd o wytnwch i wrthsefyll sychder.
- Rydym yn disgwyl i DCWW gynllunio ar gyfer buddsoddi mewn adnoddau dŵr, a dylai gwytnwch i wrthsefyll sychder yn PR24 fod yn gyson â'i Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr terfynol.
- Rydym yn disgwyl i DCWW ddangos sut mae wedi dysgu o brofiadau o dywydd sych estynedig, galw mewn cyfnodau brig, tonnau gwres a sychder yn 2018, 2020 a 2022.
- Rydym yn disgwyl i DCWW leihau gollyngiadau 15% erbyn 2025, 10% arall yn ystod PR24 a 50% erbyn 2050 (yn erbyn llinell sylfaen 2017/18).
- Rydym yn disgwyl i DCWW annog cwsmeriaid i leihau'r defnydd, i sicrhau gostyngiad o 6% yn ystod PR24 ac i 110 litr y pen erbyn 2050 a chyflwyno cynllun effeithlonrwydd dŵr cynhwysfawr i gyflawni'r targedau hyn.
- Rydym yn disgwyl i DCWW arwain ar y cyd ar ymgyrchoedd newid ymddygiad ar barchu adnoddau dŵr yn enwedig yn ystod cyfnodau o dywydd sych estynedig a'r adferiad ar ôl cyfnodau o'r fath.
- Rydym yn disgwyl i DCWW annog cwsmeriaid nad ydynt yn aelwydydd i leihau eu defnydd, gan gydnabod yr amrywiaeth eang o fath a maint

cwsmeriaid busnes. Dylid gosod y targed yn unol â'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, gan wneud tybiaeth briodol am gynnydd cefndir yn y galw yn sgil twf economaidd, ac addasu ar gyfer defnyddwyr dŵr diwydiannol mawr newydd.
- Rydym yn disgwyl i DCWW geisio sicrhau gostyngiadau pellach mewn gollyngiadau lle bo hynny'n bosibl gan fod mynd i'r afael â gollyngiadau yn flaenoriaeth i gwsmeriaid.

**Diogelwch Cronfeydd Dŵr**

- Rydym yn disgwyl i DCWW barhau â'i raglen o Gynlluniau Rheoli Asedau lluosog o uwchraddio cronfeydd dŵr i fodloni safonau rheoleiddio newydd ac addasu i newid yn yr hinsawdd, yn unol â'r risgiau a nodwyd yn y rhaglen dreigl o arolygiadau Adran 10.
- Rydym yn disgwyl i DCWW sicrhau bod unrhyw argaeau a nodwyd ac a ddosbarthwyd fel 'risg uchel' yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gwelliannau diogelwch a gwytnwch i fynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth ar unwaith.
- Rydym yn disgwyl i DCWW gryfhau'r gwytnwch i wrthsefyll digwyddiadau tebygolrwydd isel ac effaith uchel, yn enwedig yn erbyn cefndir newid yn yr hinsawdd a'r tywydd eithafol amlach sy'n deillio o hynny.
- Rydym yn disgwyl i DCWW ddatblygu dull integredig a meintiol i'w hasesiad risg a gwytnwch cyn PR29 i gynorthwyo gyda blaenoriaethu buddsoddiad pellach angenrheidiol yn yr hirdymor.

**Bioamrywiaeth**

- Rydym yn disgwyl i DCWW fod yn uchelgeisiol yn ei gynigion i wella bioamrywiaeth o ystyried ei dirddaliadau helaeth a natur y busnes. Mae mewn sefyllfa i wneud cyfraniad sylweddol at gyflawni targedau cenedlaethol a osodwyd gan CNC.
- Rydym yn disgwyl i DCWW gefnogi targedau cenedlaethol ar gyfer gwella safleoedd a chynefinoedd gwarchodedig o leiaf 30% erbyn 2030, gwella cyflwr safleoedd SoDdGA, ACA a RAMSAR, a gwelliant o 10% mewn coetiroedd o gyflwr anffafriol i ffafriol erbyn 2030.

**Allyriadau nwyon tŷ gwydr**

- Rydym yn disgwyl i DCWW leihau cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr (gweithredol a chorfforedig) 90% erbyn 2030 (yn erbyn llinell sylfaen 2010), ac i sero erbyn 2040.